# Sgiliau Hanfodol Cymru

## CYFATHREBU

**Nodyn pwysig:**

1. Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau 'Ymhelaethu ar ofynion y dystiolaeth' a 'Diffiniadau Gorfodol Cyfathrebu' sy'n rhoi manylion mandadol am bob cydran ac sy'n rhan hanfodol o'r safonau.

## Lefel Mynediad 1

Mae hyn yn golygu arddangos eich sgiliau wrth:

- siarad a gwrando
- darllen
- ysgrifennu

mewn cyd-destunau cyfarwydd a hygyrch sydd yn gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant, gwaith a swyddogaethau cymdeithasol.

### CM1.1 Siarad a gwrando

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**CM1.1.1**
Deall ac ymateb i'r iaith a siaredir mewn sefyllfa wyneb yn wyneb.

**CM1.1.2**
Siarad i gyfathrebu

- gwybodaeth sylfaenol
- teimladau
- barn
- cwestiynau

am dopigau cyfarwydd, gan ddefnyddio iaith briodol.

**CM1.1.3**
Cymryd rhan mewn trafodaeth gyda pherson arall mewn sefyllfa gyfarwydd am dopigau cyfarwydd.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- ddefnyddio geiriau allweddol i gael gwybodaeth benodol
- dilyn cyfarwyddiadau un cam mewn cyd-destun cyfarwydd, gan ofyn am ailadrodd y cyfarwyddiadau os oes angen
- ymateb i geisiadau am wybodaeth bersonol

---

- siarad yn glir er mwyn cael eich clywed a'ch deall
- holi am rywbeth drwy ddefnyddio termau priodol
- holi cwestiynau i gael gwybodaeth benodol
- gwneud datganiadau o ffaith yn glir
- mynegi'ch teimladau a'ch barn pan fo hynny'n briodol
- defnyddio iaith sy'n addas i'ch gwrandäwr/gwrandawyr

---

- cymryd rhan mewn trafodaeth un i un i gadarnhau cyd-ddealltwriaeth am dopigau cyfarwydd.

## CM1.2 Darllen

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**CM1.2.1**
Darllen, deall a chael gwybodaeth am dopigau cyfarwydd bywyd bob dydd o destunau byr.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- adnabod llythrennau'r wyddor – y priflythrennau a'r llythrennau bach
- datgodio geiriau arferol syml
- adnabod a deall geiriau syml, arwyddion a symbolau
- darllen testunau byr a delweddau syml am dopigau cyfarwydd â phatrymau iaith sy'n cael eu hailadrodd
- dilyn naratif ysgrifenedig byr ar dopig neu brofiad cyfarwydd
- cydnabod gwahanol bwrpasau testunau
- dod o hyd i ystyr geiriau nad ydych yn eu deall
- gofyn i eraill pan rydych yn ansicr ynglŷn â'r hyn yr ydych wedi'i ddarllen.

## CM1.3 Ysgrifennu

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**CM1.3.1**
Ysgrifennu testun byr i gyfathrebu gwybodaeth i gynulleidfa benodol gyfarwydd mewn ffurf benodol a chan ddefnyddio iaith briodol.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- ysgrifennu llythrennau'r wyddor drwy ddefnyddio priflythrennau a llythrennau bach
- defnyddio geiriau ac ymadroddion i gofnodi neu gyflwyno gwybodaeth
- defnyddio iaith briodol
- llunio brawddegau syml
- atalnodi brawddeg syml â phriflythyren ac atalnod llawn
- sillafu rhai geiriau allweddol personol a geiriau cyfarwydd yn gywir
- cynhyrchu testun sy'n ddarllenadwy
- gwneud eich ystyr yn glir
- gwirio a lle y bo angen diwygio eich testun.

## Datganiad mynediad

Efallai na fydd ymgeiswyr ag anableddau penodol yn gallu dangos eu bod yn gymwys drwy gyflwyno yr holl dystiolaeth yn y dull a nodir yn y safonau hyn.

Ar gyfer yr ymgeiswyr hyn gellir gwneud addasiadau rhesymol i ofynion y dystiolaeth lle bo hynny'n briodol. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y gellir caniatáu eithrio. Ceir manylion pellach am addasiadau rhesymol ac eithrio ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau penodol mewn dogfen ar wahân ar ymhelaethu.